Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig Crist Y Gair

**Ffordd Cefndy**
**Y Rhyl**
**LL18 2EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gatholig Crist Y Gair

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gatholig Crist Y Gair |
| Awdurdod lleol | Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Pob oed |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 781 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 684 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 51 |
| Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol) | - |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.4%)* | 46.0% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.5%*) | 26.9% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 10.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | - |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae staff yn Ysgol Gatholig Crist Y Gair wedi ymrwymo i greu amgylchedd gofalgar wedi'i ategu gan ei gwerthoedd Catholig. Maent wedi gweithio'n galed i helpu disgyblion i ailafael mewn bywyd ysgol ar ôl cyfnodau clo. Er gwaethaf yr ymrwymiad hwn, nid yw arweinwyr yn ddigon rhagweithiol o ran mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â lles a diogelu disgyblion, ac mae angen cryfhau trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel.

Mae llawer o ddisgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol ac yn symud rhwng gwersi'n bwyllog. Maent yn gwrtais a moesgar ag ymwelwyr ac yn awyddus i rannu eu safbwyntiau. Maent yn dechrau archwilio eu credoau ysbrydol ac yn datblygu empathi, parch a thosturi am bobl eraill.

Nid yw arweinwyr wedi gwneud digon i sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel wrth wraidd gwaith yr ysgol, ac nid oes ganddynt drosolwg a gweledigaeth strategol sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Ar draws yr ysgol, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol o ran herio disgyblion i wneud eu gorau a datblygu i fod yn ddysgwyr brwdfrydig ac ymholgar. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth. Mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel ac maent yn aml yn cynllunio tasgau sy'n cadw disgyblion yn brysur ond ddim yn cefnogi eu dysgu.

Nid yw'r drefn ar gyfer gwerthuso darpariaeth ystafell ddosbarth wedi bod yn effeithiol. Nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon agos ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu disgyblion, ac o ganlyniad, mae ganddynt farn rhy gadarnhaol am waith yr ysgol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon effeithiol yn gwella agweddau pwysig ar waith yr ysgol, fel ansawdd darpariaeth ystafell ddosbarth a'i heffaith ar gynnydd disgyblion.

Nid oes gan arweinwyr ymagwedd strategol at ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, ac felly ni ddarperir profiadau dysgu â dyfnder ac ehangder addas ar gyfer disgyblion. Hefyd, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol yn gydlynol nac yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i wella eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ar draws yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau trefniadau diogelu a mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys gallu arweinwyr i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A3 Gwella ansawdd addysgu fel bod disgyblion o bob oed a gallu yn gwneud cynnydd cryf

A4 Sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu eang, cytbwys a pherthnasol i ddisgyblion o bob oed

A5 Cryfhau darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae ychydig o ddisgyblion ar draws pob oedran yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol. Maent yn cymhwyso hyn i gyd-destunau newydd ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn gwersi ac nid ydynt yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth na medrau yn ddigon da. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn oherwydd ansawdd yr addysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn eistedd yn dawel mewn gwersi ac mae lleiafrif ohonynt yn cynnig atebion sylfaenol pan ofynnir cwestiynau iddynt. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynegi eu barn yn dda, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 7 yn ateb cwestiynau am y rhesymau hanesyddol dros wladychu India. Mae mwyafrif y disgyblion yn cynnig atebion byr ac annatblygedig yn unig ar lafar. Mae hyn yn bennaf am nad ydynt yn cael eu herio'n ddigon da i wella eu hatebion gan eu hathrawon.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dechrau cysylltu'r synau a wna gwahanol lythrennau a chyfuniadau o lythrennau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen testunau byr a syml ac yn dethol gwybodaeth sylfaenol ohonynt, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 5 yn nodi nodweddion allweddol gwareiddiad Yr Aifft. At ei gilydd, ar draws yr ysgol, nid yw medrau darllen disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae gormod o ddisgyblion o bob oedran nad ydynt yn defnyddio ystod ddigon eang o strategaethau darllen yn ddigon da i gefnogi neu wella'u dysgu.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cynhyrchu ysgrifennu strwythuredig ac yn trefnu eu gwaith yn briodol. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio ystod briodol eang o eirfa i ennyn diddordeb eu cynulleidfa. At ei gilydd, ni chaiff disgyblion gyfle i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol, yn ddigon aml, ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu gormod o ddisgyblion heb eu datblygu'n ddigonol, ac maent yn gwneud llawer o gamgymeriadau sylfaenol yn eu sillafu, atalnodi a gramadeg. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu byr a syml iawn. Mae hyn yn bennaf oherwydd dibyniaeth ormodol ar daflenni gwaith neu dasgau ailadroddus nad ydynt yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu a phrofiadau blaenorol disgyblion.

Mae gan leiafrif o ddisgyblion amgyffrediad addas o werth lle a phedair rheol rhif, ac maent yn defnyddio'r rhain yn briodol i wneud cyfrifiadau syml. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn mathemateg, ac mae hyn yn rhwystro eu gallu i gymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd pwnc eraill. O roi'r cyfle iddynt, gall mwyafrif y disgyblion lunio ystod addas o graffiau, er mai anaml y maent yn dadansoddi'r rhain yn ddigonol.

Mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd addas yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae medrau Cymraeg disgyblion yn gyfyngedig. Mae ychydig ohonynt yn dechrau datblygu eu medrau meddwl a'u medrau creadigol, ond nid ydynt yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu neu gymhwyso'r medrau hyn ar draws yr ystodau oedran.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu ystod gyfyngedig o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cynhyrchu animeiddiadau i adrodd stori 'Mr Gumpy's Outing'. At ei gilydd, nid yw gallu disgyblion i ddefnyddio medrau TGCh uwch wedi'i ddatblygu'n ddigonol oherwydd y diffyg cyfleoedd addas a roddir iddynt.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn hapus i fod yn yr ysgol gyda staff a ffrindiau. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog ac yn ymddwyn yn briodol yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud eu bod yn rhydd o fwlio. Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt broblem.

Mae llawer o ddisgyblion yn cydymffurfio mewn gwersi, ac mae ychydig ohonynt yn dangos brwdfrydedd yn eu dysgu wrth ymateb i addysgu sy'n symbylu eu hymgysylltiad. Lleiafrif ohonynt yn unig sy'n dal ati i ganolbwyntio yn ystod gwersi, a chaniateir i fwyafrif y disgyblion aros yn ddifater a goddefgar yn eu dysgu. Oherwydd gwendidau yn yr holi gan athrawon, mae mwyafrif o ddisgyblion yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu dysgu ac yn rhoi ymatebion byr iawn yn unig. Nid yw disgyblion yn mynd ati i ddysgu â chwilfrydedd a holgarwch, ac nid ydynt yn datblygu eu gwydnwch a'u penderfynoldeb yn ddigonol. Mae hyn yn bennaf am nad yw addysgu yn eu hannog i wneud hynny. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon, ac mae hyn yn rhwystro eu dysgu ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn gyfyngedig. O ganlyniad, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n mynd yn ôl at ddarnau o waith i'w gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a moesgar ac yn frwdfrydig ynglŷn â rhannu eu barn am yr ysgol. Mae mwyafrif ohonynt yn awyddus i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu medrau arwain yn ddigon da o ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol ddisgyblion-lywodraethwyr na chyngor ysgol gweithredol.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Caiff addysgu ac asesu effaith annigonol ar ddysgu disgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynllunio dilyniannau o weithgareddau sy'n briodol o ddifyr, a gwersi sydd wedi'u teilwra'n briodol i anghenion unigol disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i lywio eu cynllunio. Fodd bynnag, mae diffygion mewn addysgu ar draws yr ystod oedran yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Caiff llawer o wersi eu nodweddu gan ddisgwyliadau isel o ran yr hyn y gall llawer o ddisgyblion ei gyflawni, a faint. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio gormod o dasgau nad ydynt yn ddigon heriol, fel lliwio neu gwblhau chwileiriau. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth a'u gwydnwch, er enghraifft trwy roi gormod o gyfarwyddyd ar gyfer gweithgareddau neu fod yn rhy gyflym i ymyrryd. Mae hyn yn golygu na all disgyblion gymryd cyfrifoldeb am sut maent yn mynd ati i roi cynnig ar dasgau. Yn rhy aml, mae athrawon yn defnyddio adnoddau sy'n cyfyngu ar gynnydd disgyblion, er enghraifft trwy gyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n estynedig. Nid ydynt yn defnyddio holi'n ddigon da i ddatblygu meddwl disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar priodol sy'n helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud. Mewn ychydig o achosion, maent yn gosod targedau buddiol sy'n galluogi disgyblion i wneud gwelliannau addas i'w gwaith. At ei gilydd, ni chaiff strategaethau asesu ddigon o effaith ar gynnydd disgyblion. Mae athrawon naill ai'n ysgrifennu sylwadau rhy hir nad yw disgyblion yn ymateb iddynt yn ystyrlon, yn cyfyngu ar eu sylwadau i gyflwyno neu gwblhau tasgau, neu'n canmol gwaith gweddol yn ormodol. Yn gyffredinol, ni chaiff cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu cynnydd eu hunain neu gynnydd eu cyfoedion eu cynllunio'n dda, ac nid ydynt yn helpu disgyblion i wella. Nid yw athrawon ar draws y cwricwlwm yn defnyddio strategaethau adborth yn ddigon da i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Nid yw'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n briodol o eang, cytbwys a pherthnasol ar gyfer disgyblion. Nid yw'n cynnig amrywiaeth briodol o brofiadau dysgu iddynt sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion disgyblion. Yn yr ysgol iau, mae athrawon yn defnyddio ymagwedd wedi'i seilio ar destun i gyflwyno ystod o feysydd dysgu. Mae'r ardaloedd awyr agored yn darparu cyfleoedd addas i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau. Fodd bynnag, yn rhy aml, ni chaiff y disgyblion hyn gyfleoedd digonol i wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Er bod yr ysgol yn darparu gwybodaeth addas i ddisgyblion i helpu llywio eu dewisiadau pwnc, mae trefniadau ym Mlwyddyn 9 yn rhwystro gallu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Mae hyn oherwydd nad yw disgyblion yn astudio ystod ddigon eang o bynciau trwy gydol y flwyddyn.

Yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn rhoi ystyriaeth addas i'r angen i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion yn gynyddol yn wan ar draws yr ysgol. Ni chaiff strategaethau eu cynllunio na'u cydlynu'n ddigon da. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau'n ystyrlon mewn cyd-destunau perthnasol. Yn ychwanegol, ni chânt gyfleoedd digon rheolaidd i astudio addysg bersonol a chymdeithasol. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu gwerthoedd a'u barn eu hunain, er enghraifft.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion ar draws pob ystod oedran yn ddigon eang na strategol. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gofalu am ei disgyblion ac mae wedi ymrwymo i wella eu datblygiad personol a'u lles yn unol ag ethos Catholig cryf.

Mae'r ysgol yn dechrau sefydlu diwylliant o ddiogelu, ac ar y cyfan, mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod o bartneriaid i fynd i'r afael â phryderon am les a diogelwch disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ddigon rhagweithiol o ran mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â lles a diogelwch disgyblion. Yn ychwanegol, nid yw'r broses i adrodd ar a chofnodi pryderon ynghylch diogelu yn ddigon trylwyr, ac nid yw bob amser yn darparu gwybodaeth bwysig am y camau a gymerir i amddiffyn disgyblion.

Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol. Fodd bynnag, nid oes gan staff ddealltwriaeth ddigon cryf o'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i amddiffyn disgyblion rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. At ei gilydd, nid yw'r trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion.

Ar draws yr ysgol, mae cyfleoedd addas i ddisgyblion archwilio eu credoau ysbrydol a datblygu empathi, parch a thosturi. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, sy'n croesawu amrywiaeth o ddisgyblion o bob cefndir a ffydd. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol sydd o fudd i'r gymuned leol a'r byd ehangach, er enghraifft casgliadau ar gyfer banciau bwyd lleol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddathlu eu diwylliant Cymreig nac archwilio ystyriaethau moesegol ehangach.

Mae'r perthnasoedd cryf, ymddiriedus a gofalgar rhwng staff a disgyblion yn sicrhau bod yr ysgol yn delio ag achosion o fwlio yn gyflym, ar y cyfan. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r ysgol yn delio â phryderon disgyblion yn ddigon da.

Mae gweithdrefnau i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae hyn yn cynnwys ffocws gwerthfawr ar ddisgyblion ag ADY sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n derbyn gofal. Mae disgyblion ag ADY, yn enwedig y rhai sy'n manteisio ar ddarpariaeth neu ymyriadau arbenigol, yn cael cymorth addas ar gyfer eu hanghenion addysgol a'u lles.

Ychydig iawn o gyfleoedd a geir i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain a chyfrannu'n weithredol tuag at ddatblygu cymuned yr ysgol. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r cyfleoedd hynny sydd yn bodoli, er enghraifft y 'Criw Cymraeg' neu 'Arwyr Iach' ('Healthy Heroes'). Ceir ystod briodol o glybiau allgyrsiol, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau cerddorol, artistig a chwaraeon, sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu'n greadigol a gweithio fel rhan o dîm.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol â sefydliadau partner i roi arweiniad i ddisgyblion â'u camau nesaf, gan gynnwys colegau lleol a Gyrfa Cymru. Cefnogir disgyblion i barhau i addysg bellach neu symud yn uniongyrchol i swydd trwy brentisiaethau, gan gynnwys lleoliadau yn yr ysgol ei hun.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn Ysgol Gatholig Crist Y Gair wedi datblygu gweledigaeth glir, wedi'i harwain gan yr ethos Catholig, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ofalu am ddisgyblion. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod cyfnodau clo. Fodd bynnag, nid ydynt wedi creu unrhyw ymagwedd strategol at ddatblygu dysgu, gwybodaeth a medrau disgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffygion sylweddol mewn addysgu a chynnydd cyfyngedig disgyblion. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr wedi sicrhau prosesau diogelu digon trylwyr nac wedi datblygu gweledigaeth gydlynus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Bu oedi wrth weithredu cynllun cynhwysfawr i ailstrwythuro staffio oherwydd y pandemig. Ar hyn o bryd, mae gormod o arweinwyr nad ydynt yn deall a chyflawni eu rolau yn briodol, ac mae diffyg eglurder cyffredinol o ran yr agweddau penodol y maent yn gyfrifol amdanynt. O ganlyniad i hyn, mae llawer o'u gwaith wedi bod yn aneffeithiol.

Nid yw uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon da. Mae diffyg cymorth a her briodol yn rhwystro datblygiad arweinwyr canol, ac ni all y rhan fwyaf ohonynt werthuso ansawdd ac effaith y ddarpariaeth yn ddigon da, yn enwedig addysgu, yn eu meysydd cyfrifoldebau.

Ers y pandemig, mae'r ysgol wedi ailddechrau ei phrosesau hunanwerthuso, ond ni roddir ystyriaeth ystyrlon o hyd i effaith y ddarpariaeth ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion. Er bod arweinwyr yn arsylwi gwersi, yn bennaf fel rhan o broses rheoli perfformiad yr ysgol, nid yw eu gwerthusiadau'n canolbwyntio ar gynnydd disgyblion.

Nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwahaniaethu rhwng nodweddion addysgu a dysgu yn ddigon da, yn eu gwerthuso â thrylwyredd a manwl gywirdeb, nac yn triongli eu canfyddiadau o blith ystod ddibynadwy o weithgareddau hunanwerthuso. O ganlyniad, nid ydynt wedi cydnabod gwendidau pwysig mewn darpariaeth i gefnogi datblygiad medrau disgyblion neu agweddau ar addysgu sy'n wael. Nid yw'r prosesau hyn yn galluogi arweinwyr i nodi cryfderau neu feysydd i'w gwella yn glir neu'n gywir, ac nid ydynt yn bwydo i mewn i gynllunio gwelliant.

Yn aml, caiff prosesau hunanwerthuso presennol eu hymestyn yn ddiangen ac mae uwch arweinwyr yn cynnig barn ddisgrifiadol iawn, yn bennaf, o ddarpariaeth nad yw'n cael ei gwerthuso. Ni chaiff arweinwyr canol eu cynnwys yn ddigonol yn y broses hon. Mae'r diffygion hyn yn cyfrannu at y ffaith fod gan arweinwyr a llywodraethwyr farn rhy gadarnhaol o lawer am yr ysgol, gan gynnwys ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac effaith yr arweinyddiaeth. Nid yw blaenoriaethau gwella'r ysgol, nad yw arweinwyr canol yn cyfrannu atynt, yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddiffygion pwysig mewn darpariaeth ac arweinyddiaeth. Nid yw cynllunio gwelliant yn ddigon manwl gywir ac nid yw'n cynnwys digon o feini prawf llwyddiant â her briodol i farnu cynnydd yn eu herbyn.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol addas, gan gynnwys cyfleoedd i staff rannu eu harferion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio nac yn gwerthuso'r rhain yn ddigon da. Nid yw trefniadau dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â phrosesau'r ysgol ar gyfer rheolaeth llinell, hunanwerthuso na rheoli

perfformiad. O ganlyniad, prin yw'r effaith a gaiff dysgu proffesiynol ar wella ansawdd yr addysgu neu'r arweinyddiaeth.

Ers i'r ysgol agor, mae arweinwyr wedi rheoli ymrwymiadau ariannol etifeddol yr ysgol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso gwariant grant yn ddigon rheolaidd nac yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, ar hyn o bryd, ni all arweinwyr nodi effaith y grant datblygu disgyblion ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion targedig.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogwyr brwdfrydig i'r ysgol. Fodd bynnag, mae eu harsylwadau am waith yr ysgol yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt yn ei helpu i wella. Nid ydynt yn cyflawni eu swyddogaeth fel ffrind beirniadol yn ddigon da. Er enghraifft, nid ydynt yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2022